



Y Swyddfa Llety  
The Accommodation Office

---


# Llety

ym Mhrifysgol Aberystwyth

---

# Llety

## Eich cartref nesaf



**Aelodaeth Blatinwm o'r Ganolfan Chwaraeon yn rhad ac am ddim.**



**Sicrwydd llety yn y flwyddyn gyntaf.\***



**Rydym yn cynnig amrywiaeth o fathau o lety a lleoliadau fel y gallwch ddod o hyd i'r lle sy'n addas ar eich cyfer chi, gyda'r mwyafrif o breswylfeydd o fewn taith gerdded fer i'r campws.**

Mae pob llety yn gymuned ag iddi ei nodweddion penodol ei hun, ac yn cynnig amgylchedd diogel lle gallwch gymdeithasu, astudio ac ymlacio. Pan fyddwch yn byw yn ein llety does dim angen pryderu am gostau cyfnewidiol gan fod y ffioedd neuadd yn cynnwys cyfleustodau, cysylltiad rhyngwyd gan gynnwys wifi, a lefel uchel o yswiriant eiddo personol.

Rydym yn cynnig amrywiaeth eang o lety hunanarlwyo neu rannol-arlwyo gyda naill ai ystafelloedd en-suite, neu fflatiau gydag adnoddau a rennir ynghyd â'n stiwdios hunan-gynhwysol, ac mae'r prisiau'n amrywio rhwng tua £88 - £177 yr wythnos\*. Beth bynnag yw'ch gofynion, fe geisiwn ddarparu'r dewis mwyaf addas ar eich cyfer ac rydym bob amser yn ymdrechu i glustnodi israddedigion i fflatiau/tai gyda'i gilydd.

Cyn gynted ag y byddwch yn cyrraedd, bydd y Tîm Bywyd Campws yn eich croesawu i'ch cartref newydd a chymuned y campws.

### Gwneud cais am lety

Ar ôl i chi fodloni amodau eich cynnig academiaidd, byddwn yn anfon gwahoddiad atoch i wneud cais am lety trwy e-bost a'r post. Rydym yn eich cyngori i gwblhau'r cais cyn gynted â phosibl, oherwydd mae'r llety'n cael ei rannu ar sail 'y cyntaf i'r felin'.

Gallwn ddarparu llety i chi drwy gydol eich amser yma, yn amodol ar argaeledd. Os hoffech fyw gyda'r ffrindiau rydych wedi'u gwneud yn eich blwyddyn gyntaf, gallwch wneud cais i fyw gyda'ch gilydd.

### Allwedd



Llety arlwyo



Cawod en-suite



Golchdy



Wi-Fi



Parcio



Mannau cymdeithasu ac astudio



Llety Cymraeg penodedig

\*I fod yn gymwys, rhaid i'ch cais ddod i law erbyn 1af o Awst yn y flwyddyn mynediad a rhaid i chi ymateb i'r cynnig llety erbyn y dyddiad a nodwyd yn y cynnig. Noder y caiff lle mewn llety sy'n eiddo i'r Brifysgol neu a reolir ganddi ei warantu, ond nid y math penodol o ystafell neu leoliad.



2



## Pantycelyn



- ystafelloedd sengl, en-suite
- llety arlwyol yn benodol ar gyfer siaradwyr a dysgwyr Cymraeg gyda ffreutur, lolfa, gofod astudio a manau cymdeithasol
- o fewn pellter cerdded i'r campws a'r dref
- £176.25 yr wythnos (33 wythnos)



## Fferm Penglais



- hunanarlwyo
- fflatiau penoddedig i fyfyrwyr Cymraeg eu hiaith
- ystafelloedd en-suite sengl (gyda gwely dwbl), mewn fflatiau i 6-8 myfyrwr sy'n rhannu cegin/ardal fyw
- stiwdios sengl hunangynhwysol hefyd ar gael
- siop a chaffi ar y safle, ynghyd â manau cymdeithasu ac astudio
- 5 munud ar droed o Gampws Penglais
- £149.98 yr wythnos (40 wythnos) - ystafell en-suite
- £164.87 yr wythnos (40 wythnos)- stiwdio





## Rosser



- hunanarlwyo
- ystafelloedd sengl, en-suite, mewn fflatiau i hyd at 8 myfyriwr
- rhannu adnoddau cymunedol
- defnydd o Lolfa@Rosser
- ar Gampws Penglais
- £123.62 yr wythnos (39 wythnos)



## Pentre Jane Morgan



- hunanarlwyo
- ystafelloedd sengl, mewn tai i 5 neu 6 myfyriwr
- rhannu adnoddau cymunedol
- defnydd o Lolfa@PJM
- 5 munud ar droed o Gampws Penglais
- £108.91 yr wythnos (39 wythnos)





6



7



## Cwrt Mawr



- hunanarlwyo
- ystafelloedd sengl, mewn fflatiau i 6-10 myfyriwr
- rhannu adnoddau cymunedol, a chegin llawn cyfarpar
- defnydd o ganolfannau dysgu ar Gampws Penglais
- wedi'i leoli ar Gampws Penglais
- £88.13-£98.46 yr wythnos (39 wythnos)



## Trefloyne



- hunanarlwyo
- ystafelloedd sengl, mewn tai i 5 neu 6 myfyriwr
- rhannu adnoddau cymunedol
- defnydd o Lolfa@Rosser
- 5 munud ar droed o Gampws Penglais
- £98.46 yr wythnos (39 wythnos)



# Cymharu ein llety

Nodwch fod yr opsiynau llety sydd wedi'u rhestru yn benodol ar gyfer y flwyddyn academaidd 2022/23, ond gallant newid ar gyfer blynyddoedd academaidd yn y dyfodol, wrth i ni barhau i wella ein Hystâd.




	Cwrt Mawr		Fferm Penglais		Pantycelyn (Myfyrwr Cyfrwng Cymraeg)	Pentre Jane Morgan	Rosser	Rosser G	Trefloyno
	Band Pris 1	Band Pris 2	En-Suite	Stiwio					
<b>Ymwelwyd heddiw</b>									
Myfyrwr Israddedig	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓		✓
Myfyrwr Ôl-raddedig		✓	✓	✓	✓	✓		✓	
En-suite			✓	✓	✓		✓	✓	
Cyfrwng Cymraeg			Blociau dynodedig		✓				
Arlwyo					✓				
Hunan-arlwyo	✓	✓	✓	✓		✓	✓	✓	✓
Cegin breifat				✓					
Llety wedi'i addasu			✓	✓	✓	✓			
Nifer y myfyrwr fesul fflat neu tŷ	6-10	6-10	6 neu 8	1	Neuadd Agored	5 neu 6	8	10	7
Math o ystafell	Sengl	Sengl	Sengl	Fflat Stiwio	Sengl	Sengl	Sengl	Sengl	Sengl
Maint y gwely	Sengl (3')	Sengl (3')	Dwbl (4'6")	Dwbl (4'6")	Sengl (3') / Dwbl Fach (4')	Sengl (3')	Sengl (3')	Dwbl Fach (4')	Sengl (3')
Ardal eistedd meddal	✓		✓		✓	Ar gael mewn rhai tai	✓	✓	✓
Teledu yn y gegin (trwydded a ddarperir)			✓					✓	
Cyswllt â'r We (a chyswllt diwifr) (wedi'i gynnwys)	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓
Yswiriant Cynnwys Personol (wedi'i gynnwys)	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓
Aelodaeth Blatinwm o'r Ganolfan Chwaraeon (wedi'i gynnwys)	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓
Mannau cymdeithasu	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓
Pellter o Adeiladau Academaidd Penglais (milltiroedd)	0.3	0.3	0.6	0.6	0.1	0.4	0.3	0.3	0.3
Storfa feiciau fewnol ddiogel a chyleusterau golchi beiciau	✓	✓	✓	✓		✓	✓	✓	✓
Hyd y Drwydded (wythnosau)	39	39	40	40	33	39	39	50	39
Cost Wythnosol (Ffioedd Llety ar gyfer 2022/23 - yn amodol ar newidiadau ar gyfer 2023/24)	£98.46	£88.13	£149.98	£164.87	£176.25	£108.91	£123.62	£136.87	£98.46
Cost Flynyddol (Ffioedd Llety ar gyfer 2022/23 - yn amodol ar newidiadau ar gyfer 2023/24)	£3,840	£3,437	£5,999	£6,595	£5,817**	£4,248	£4,821	£6,844	£3,840

Opsiynau ychwanegol (mae taliadau'n berthnasol):

Golchdai ar y safle	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓
Parcio	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓
Trwydded Deledu unigol	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓
Cynllun Prydau Lletygarwch	✓	✓	✓	✓		✓	✓	✓	✓

\*\*Yn cynnwys swm o £1,702.80 fel lwfans prydau wedi'i dalu ymlaen llaw.



Y Swyddfa Llety,  
 Ystadau, Cyfleusterau & Preswylfeydd,  
 Y Sgubor,  
 Fferm Penglais,  
 Aberystwyth SY23 3FH

☎ +44 (0) 1970 62 2984

@ llety@aber.ac.uk

f /AberUni.AccommodationOffice

🐦 @PAUAccomOffice

📷 @PAUAccomOffice

Wedi'u dylunio a'u cynhyrchu gan  
 Marchnata a Denu Myfyrwyr,  
 Prifysgol Aberystwyth 2022.



Argraffwyd ar bapur  
 wedi'i ailgylchu 100%